


# 2023-2024

## Adroddiad Sefydliadol #17

**Y cyfnod dan sylw: 1 Ebrill – 31 Mehefin 2023**

Lluniau: Cyfrolau Rhestr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn, 2023

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon**

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau chwarter 1 5

Ein lle yn y sector 7

**Ein heffaith:**

Uchafbwynt wrth gyflawni nod: Diwylliant Llenyddol Cymru 8

**Cynnydd yn erbyn ein targedau**

Cyngor Celfyddydau Cymru 2023-24 10

Targedau Gweithredol 17

Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi 19

**Gwersi I'w Dysgu**

Gweithgaredd a Gweithredol 20

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol

Roedd penderfynu beth i'w ysgrifennu yn y cyflwyniad hwn i'r Adroddiad Sefydliadol yn dalcen caled.  Mae'n anodd crynhoi chwarter mor amrywiol a chynhyrchiol, a ninnau wedi lansio rhaglenni newydd, ailwampio systemau, a chynnal digwyddiadau. Leusa sydd gan amlaf yn crynhoi hyn yn huawdl, ac rydyn ni wedi gwir weld ei cholli yn y chwarter hwn. Serch hynny, roedden ni i gyd wrth ein boddau'n clywed ei bod hi a'i mab bach, Gorwel, yn hapus ac yn iach, ac rydyn ni'n edrych ymlaen yn arw at ei chroesawu yn ôl yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ond dydyn ni ddim wedi bod yn cicio ein sodlau chwaith, wrth aros iddi ddychwelyd.  Ymhlith nifer o bethau eraill, yn y chwarter hwn rydyn ni wedi lansio prosiect strategol newydd, Sgwennu'n Well, sy'n ceisio hyfforddi hwyluswyr llenyddol i weithio mewn lleoliadau iechyd a llesiant, gan lenwi bwlch roedden ni wedi'i ganfod mewn darpariaeth.  Mae'r diddordeb yn y prosiect hwn wedi bod yn aruthrol, a hynny ymhlith cyfranogwyr posibl (daeth 50 o geisiadau i law) ac ymhlith partneriaid yn y sector iechyd a llesiant sy'n awyddus i gydweithio ar y rhaglen.

Mae nifer o aelodau'r tîm hefyd wedi bod yn ymweld â gwyliau a digwyddiadau llenyddol, gan ledaenu neges Llenyddiaeth Cymru. Mae modd darllen mwy am hynny ar y dudalen yn yr adroddiad hwn sy'n trafod rhoi cymorth i'r sector.

Rydyn ni hefyd wedi bod yn cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol eleni, sydd i'w chynnal ym Moduan, nepell o Dŷ Newydd.  Mae dros 30 o ysgolion wedi bod yn rhan o'n prosiect Gair mewn Gwlân, sy'n dod â phlant ysgol o Ben Llŷn a gweuwyr o bob oed yn yr ardal at ei gilydd, a hynny'n gyfle iddyn nhw ddangos eu cariad at y Gymraeg.   Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddangos eu gwaith, at ddathlu'r llyfr sy'n cyd-fynd â'r prosiect, ac at gynnal cyfres o ddigwyddiadau llenyddol yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

O ran datblygu strategol, rydyn ni rhwng dwy stôl ar hyn o bryd, wrth i ni aros am ganlyniadau Adolygiad Buddsoddi Cyngor y Celfyddydau yr hydref hwn. Serch hynny, rydyn ni wedi gwneud cynnydd gyda'n strategaeth addysg at y dyfodol, yn dilyn sesiwn bord gron gyda hwyluswyr Cymru Ni. Rydyn ni hefyd wedi bwrw ymlaen â'n blaenoriaeth ym maes yr argyfwng hinsawdd drwy fynd ati'n drylwyr i werthuso'r prosiect peilot, Llên mewn Lle.  Mae'r gwaith i ddatblygu cynllun cadwraeth Tŷ Newydd wedi dod i stop am y tro, wrth i ni aros am wybodaeth gan y penseiri, ond mae'r gwaith ar y Tŷ Haul wedi dod yn ei flaen yn dda.

Mae Tŷ Newydd wedi bod yn brysur ers agor ar ddechrau tymor 2023.  Rydyn ni wedi croesawu 154 o westeion ar 12 o gyrsiau. Mae ein pryderon cychwynnol am y gwerthiant araf wedi cilio rywfaint, ac mae gwerthiant mwyafrif cyrsiau eleni'n gwella, er bod tuedd i westeion archebu llefydd ar y funud olaf. Fel erioed, mae'r cyrsiau wedi cael croeso da, gyda'r gwestai hwn yn crynhoi'r profiad: *"Roedd y cwrs yn fuddsoddiad gwych – rydw i'n teimlo bod fy ysgrifennu wedi datblygu llawer eisoes, a fedra' i ddim aros i roi'r hyn rydw i wedi'i ddysgu ar waith"*



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol

Gan edrych yn ôl ar y chwarter diwethaf, mae'n ymddangos yn rhyfeddol bod cymaint o weithgarwch wedi'i wasgu i mewn i gyfnod o gwta dri mis. Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, ceir manylion rhai o uchafbwyntiau swyddogol ein gweithgareddau a'n materion gweithredol. Ond yn y diweddariad hwn, hoffwn i rannu fy uchafbwyntiau personol i, a sôn am waith rhagorol aelodau ein tîm a'r gwaith na fyddwch chi'n darllen amdano gan amlaf yn ein hadroddiadau:

- A minnau yn Nhŷ Newydd, gweld Lora yn mynd yr ail filltir i un o'n tiwtoriaid o India, gan fynd â'r tiwtor i apwyntiadau meddygol brys
- Gwrando ar Branwen yn cyflwyno mor hyderus ar BBC Radio Cymru wrth gyhoeddi rhestr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn
- Gweld Emily yn trechu'i nerfau ac yn cynnal ei thrafodaeth banel gyhoeddus gyntaf fel rhan o gynllun Cynrychioli Cymru
- Wrth fynd o le i le, clywed awduron yn canmol Petra a'n tîm post@ am eu cefnogaeth
- Gwylio Miriam W yn cnoi cil yn ddygn ynghylch paent “gwyn” neu liw “garlleg” ar gyfer y cyffyrddiadau olaf i'r gwaith atgyweirio yn Nhŷ Newydd (dyma ollwng y gath o'r cwd: roedd y ddau'n edrych yn union yr un fath)
- Yn yr Urdd, gweld Aaron yn cymryd ei waith yn LLWYR o ddifrif wrth guddio Nia Morais, y Bardd Plant newydd, cyn y datgelu mawr.
- Ymuno â Miriam S i roi cyflwyniad i Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, lle atebodd hi'r holl gwestiynau manwl a meithrin perthynas wych â'r cyfranogwyr.
- Ac wrth gwrs, alla' i ddim anghofio bwyta cwcis ceirch a sinsir arbennig Tony – uchafbwynt y flwyddyn, mae'n siŵr, nid y chwarter hwn yn unig.

**Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol**



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Dechreuodd Chwarter 1 drwy gyhoeddi pwy oedd awduron llwyddiannus rhaglen Cynrychioli Cymru. Fe wnaethon nhw gyfarfod ar-lein yn wreiddiol, cyn teithio i Dŷ Newydd i ddosbarth meistr dros benwythnos gyda Patrice Lawrence.
- Agorodd rhaglen Cynrychioli Cymru hefyd i'r cyhoedd drwy gweminarau ar-lein am ddim; '*Deall yr angen am lenyddiaeth amrywiol*' a '*Goresgyn ystrydebau*'.
- Fis Mai, daeth 8 o hwyluswyr prosiect Cymru Ni at ei gilydd i rannu eu profiadau o'r prosiect a syniadau i roi sail i'n strategaeth addysg yn y dyfodol.
- Dechreuodd cyfres o 11 o weithdai gan edrych ar wydnwch pobl wrth ofalu am eu hiechyd a'u llesiant meddyliol, a hynny gyda'r awdur/hwylusydd Uschi Turoczy a'r darlunydd Amy Moody fel rhan o'r prosiect Darn wrth Ddarn a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Mind Casnewydd.
- Cyhoeddwyd rhestr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn ar BBR Radio Wales a BBC Radio Cymru fis Mai.
- Lansiwyd cyfle datblygu newydd i hwyluswyr llenyddol, Sgwennu'n Well
- Rhannwyd myfyrdodau am ymwneud Casi Wyn, Bardd Plant Cymru, â'r prosiect Llais Dyslecsia, ynghyd â rhyddhau'r gerdd fideo 'Tu Draw'.
- Dewiswyd 10 o awduron ar gyfer rhaglen nodedig Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, a'u cyflwyno yn ystod yr ŵyl.
- Cafodd Nia Morais ei henwi fel Bardd Plant newydd Cymru yn Eisteddfod yr Urdd, ac enwyd Alex Wharton fel y Children's Laureate Wales newydd yng Ngŵyl y Gelli.
- Ymwelodd Bardd Cenedlaethol blaenorol Cymru, Ifor ap Glyn, â'n swyddfa yng Nghaerdydd, sef man cychwyn ei daith 'Sha thre / Am Adra'
- Bu Bardd Cenedlaethol presennol Cymru, Hanan Issa a Bardd Plant Cymru, Casi Wyn, yn nodi dadorchuddio cerflun Cranogwen, yn Llangrannog fis Mai.
- Agorodd y broses ymgeisio i wahodd unigolion o liw sy'n arddel hunaniaeth menywod neu rywedd ar y cyrion i ddod ar gwrs preswyl rhad ac am ddim, am ysgrifennu byd natur, sef Nodyn ar Natur, gyda Durre Shahwar a Nasia Sarwar-Skuse.

## Gweithrediadau

- Cyhoeddwyd saith o adnoddau ar wefan Llenyddiaeth Cymru ym mis Mai 2023. Roedd y rhain yn cynnwys cyngor am ddarparu gweithgareddau llenyddol amrywiol, mentora, ysgrifennu a chyhoeddi eich gwaith, a golygu a phrawfddarllen.
- Diweddarwyd y wefan fis Mai 2023, gan ailwampio'r dudalen swyddi gwag ar ffurf adran newydd, sef Gyrfaoedd a Chyfleoedd.
- Parhaodd y staff i rannu cyflwyniadau yn ystod cyfarfodydd tîm bob pythefnos – yn ystod y chwarter hwn cafwyd cyflwyniadau am Llên mewn Lle, Sgyrsiau Creadigol, canlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliaid, a'n Canllaw Cyfieithu.
- Recriwtiwyd yn llwyddiannus i swydd yr Uwch Swyddog Codi Arian a fydd yn ymuno â'r tîm fis Medi.
- Mae simdde a wal ddeheuol Tŷ Newydd wedi'u peintio fel rhan o'r gwaith i adnewyddu'r Tŷ Haul.
- Cafodd yr ymddiriedolwyr sesiwn hyfforddiant am lywodraethu gan Marie Phillipe a Harriet Walters, cyfreithwyr yn Geldards.
- Ymunodd tri o ymddiriedolwyr newydd, Owen Hathaway, Steve Dimmick a Richard King, â Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru yng nghyfarfod mis Mai 2023.



Cyhoeddwyd enwau grŵp o awduron 3 rhaglen Cynrychioli Cymru a chynhaliwyd eu dosbarth meistr cyntaf fis Ebrill




Cyhoeddwyd rhestrau byrion Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn Gymraeg a Saesneg




Lansiodd Llenyddiaeth Cymru gyfle datblygu newydd i hwyluswyr llenyddol




Bu Bardd Plant Cymru, Casi Wyn, yn cefnogi'r prosiect Llais Dyslecsia, gan godi ymwybyddiaeth o ddyslecsia yn y Gymraeg




Cyhoeddodd Gŵyl y Gelli enwau'r awduron llwyddiannus a ddewiswyd ar gyfer y rhaglen Awduron Wrth eu Gwaith



Cyhoeddwyd mai Nia Morais yw Bardd Plant Cymru 2023-25 a chyhoeddwyd mai Alex Wharton yw'r Children's Laureate Wales 2023-25



Cafodd Bardd Cenedlaethol Cymru, Hanan Issa, a Bardd Plant Cymru, Casi Wyn, eu comisiynu i ysgrifennu am Cranogwen



Cynhaliodd LUMIN Syllabus ddwy sesiwn fel rhan o brosiect Llên mewn Lle



Agorodd y broses ymgeisio ar gyfer cwrs strategol, Nodyn ar Natur, gyda'r tiwtoriaid Durre Shahwar a Nasia Sarwar-Skuse

# Ein lle yn y Sector

Mae holl staff Llenyddiaeth Cymru yn ymwneud yn helaeth â gwaith i hwyluso gweithgareddau drwy'r sector, boed hynny drwy ateb ymholiadau gan awduron neu drwy roi cyflwyniadau mewn digwyddiadau cyhoeddus o bwys. Mae'r canlynol ymhlith uchafbwyntiau'r chwarter diwethaf:

- **Ceisiadau i rannu polisïau a gwybodaeth am ein materion gweithredol.** Rydyn ni wedi gweithio gyda sefydliadau fel Honno, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Ffilm Cymru a National Theatre Wales i rannu polisïau fel ein canllawiau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, templedi awdurdodi ariannol, polisïau diogelu, a chymorth i ddefnyddio Sharepoint/Teams. Er nad oes gan yr elfennau hyn gysylltiad uniongyrchol â llenyddiaeth, rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n gallu rhannu'r arferion gorau yn eang, gan helpu cydweithwyr drwy'r sector.

- **Presenoldeb yng Ngŵyl y Gelli a'r Urdd.** Roedd nifer o aelodau'r tîm yn bresennol yn y Gelli a'r Urdd. Ynghyd â chyhoeddi enwau ein Bardd Plant a'n Children's Laureate newydd, fe roeson ni hefyd gyflwyniad a chyngor unigol i Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli a chwrdd â chydweithwyr o bob rhan o'r sector (fel Cyngor Llyfrau Cymru, Golwg, Lucent Dreaming, a'r British Council). Gwnaed cyswllt newydd â'r Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol. Ar ôl cyfarfod yng Ngŵyl y Gelli, rydyn ni bellach yn cefnogi gwaith ein gilydd ar sawl lefel – boed drwy gefnogi'u hymgyrch i agor 500 o lyfrgelloedd newydd mewn ysgolion drwy'r Deyrnas Unedig, cydweithio ar ymweliadau awduron yng Nghymru, neu drwy elwa o waith ymchwil ein gilydd i'r buddion sy'n cael eu creu wrth i awduron ymweld ag ysgolion.

- **Cronfa Cynulleidfaoedd Newydd Cyngor Llyfrau Cymru.** Yn ystod y chwarter hwn rydyn ni wedi helpu nifer o bartneriaid i baratoi ceisiadau i'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd gan gynnwys Inclusive Journalism Cymru, Taz Rahman a Lucent Dreaming. Rydyn ni hefyd yn helpu'r Cyngor Llyfrau drwy fod yn rhan o'r panel asesu ar gyfer ceisiadau. Mae'r gronfa hon yn un fymryn yn ddadleuol gan ei bod hi'n gorgyffwrdd â'n cylch gwaith ni (ac yn sgil hynny, gylch gwaith Cyngor y Celfyddydau) i ddatblygu awduron o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli. Ond mae hi'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol (sy'n rhoi eu holl arian at gyhoeddi i Gyngor Llyfrau Cymru). Fel sefydliad, rydyn ni wedi penderfynu cefnogi'r amcanion y mae'r gronfa'n ceisio'u cyflawni, gan ddangos ewyllys da at y Cyngor Llyfrau drwy ei helpu gyda'n hamser a'n harbenigedd. Ar yr un pryd, rydyn ni'n helpu Cyngor y Celfyddydau a Cymru Greadigol i ofyn am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch eu cylchoedd gwaith, er mwyn osgoi'r sefyllfa hon yn y dyfodol.

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n fwy perthnasol ac yn agored i gynulleidfa ehangach.

## Beirdd Llenyddiaeth Cymru

Mae ein beirdd cenedlaethol (Bardd Plant Cymru, y Children's Laureate Wales a'r Bardd Cenedlaethol) yn llysgenhadon i Gymru, a'u nod yw ysbrydoli a grymuso pobl drwy lenyddiaeth.

Yn ystod y chwarter hwn, mae Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, wedi'i chomisiynu i ddathlu 75 mlynedd o'r GIG gyda cherdd i'w pherfformio mewn dau ddigwyddiad amlwg fis Gorffennaf.

Ynghyd â Casi Wyn, Bardd Plant Cymru ar hyn o bryd, gweithiodd Hanan hefyd ar gomisiwn ar gyfer dadorchuddio cerflun Cranogwen. Gweithiodd Casi gyda phlant Ysgol Gymunedol T. Llew Jones i greu cân o'r enw 'Sŵn', a gafodd ei pherfformio wrth fedd Cranogwen.

Fis Mehefin, cynhaliodd Casi sesiynau yn llyfrgell Caernarfon gydag Ysgol Rhosgadfan ac Ysgol y Gelli, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru. Bydd y gwaith creadigol a ddatblygwyd yn y sesiynau hyn yn rhan o raglen digwyddiad nesaf Dihuno'r Dychymyg yn y Senedd, gan roi llwyfan i waith Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate a'u heffaith wrth weithio gyda phlant.

Mae testunau'r gweithiau comisiwn diweddaraf a phartneriaethau difyr y beirdd plant yn amlygu eu statws a'u pwysigrwydd fel llysgenhadon cenedlaethol. Maen nhw'n gallu myfyrio ac ymateb i bethau sy'n ein hwynebu ni i gyd, gan hybu lleisiau a helpu cenedlaethau newydd i ymwneud â digwyddiadau lleol a chenedlaethol.

Yng Ngŵyl y Gelli, cafodd **Alex Wharton** ei enwi fel y Children's Laureate Wales nesaf, ar gyfer 2023-25, a hynny mewn digwyddiad arbennig gyda Connor Allen, y Children's Laureate presennol. Roedd bron i 100 o bobl yn bresennol.

Yn y misoedd nesaf, bydd Alex yn gweithio gyda Llenyddiaeth Cymru i ddatblygu rhaglen o weithgareddau. Ewch i'n gwefan i ddarllen mwy am weledigaeth a phrif amcanion Alex ar gyfer ei gyfnod yn y swydd.



Children's Laureate Wales 2023-25
**Alex Wharton**

"*Mae gennyt ti'r grym i ysbrydoli plant eraill, yn union fel y gwnest ti ym Mharc Jiwbilî, a bydd dy holl waith caled yn ysbrydoli pobl eraill i weithio yr un mor galed.*

- Ysgol Gynradd Parc Jiwbilî wrth ymateb i'r cyhoeddiad am Alex."



Bardd Plant Cymru 2023-25
**Nia Morais**

Penodwyd **Nia Morais** yn Fardd Plant nesaf Cymru 2023-25, a chyhoeddwyd ei henw ar lwyfan yr Arddorfa yn Eisteddfod yr Urdd gyda'r Bardd Plant presennol, Casi Wyn.

Wrth gael ei phenodi, meddai Nia, "*Rwy'n caru sgwennu barddoniaeth ac yn gobeithio gallu creu gwaith gwych gyda phobl ifanc Cymru.*"

Ewch i'n gwefan i ddarllen mwy am weledigaeth Nia ar gyfer ei chyfnod yn y swydd.

Mae Nia ac Alex ill dau wedi cymryd rhan yn y gorffennol yn ein rhaglenni i ddatblygu awduron, sef Cynrychioli Cymru a Cymru Ni, ac rydyn ni wrth ein boddau bod y rhaglenni hyn wedi rhoi'r sgiliau a'r hyder iddyn nhw ddatblygu i gamu i'r swyddi hyn.

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

Dathlu amrywiaeth ein hawduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru yn y byd, drwy greu llwyfan i lenyddiaeth sy'n fwy perthnasol ac yn agored i gynulleidfa ehangach.

## Cronfa Ysbrydoli Cymunedau

Mae'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau yn cynnig cymorth ariannol o hyd at 50% o'r ffioedd sy'n cael eu talu i awduron mewn digwyddiadau, gan gynnwys sgyrsiau, darlithoedd, gweithdai ysgrifennu creadigol a mwy.

Yn ystod y chwarter hwn, mae'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau wedi cefnogi **89** o sesiynau a **28** o sefydliadau. Mae tymor y gwyliau wedi dechrau yma yng Nghymru, ac rydyn ni'n falch o fod wedi gallu cefnogi amrywiaeth eang o ddigwyddiadau drwy roi cyllid, fel: Gŵyl Lenyddiaeth Llyfrgell Gymunedol Llys-faen, Gŵyl y Plant a Gŵyl Lên Llandeilo, i enwi rhai.

### Astudiaeth Achos: The Cellar Bards

I ddathlu eu hunfed pen-blwydd ar ddeg, cynhaliodd y Cellar Bards ddigwyddiad perfformio barddoniaeth yng Ngheredigion gyda Gillian Clarke yn siaradwr gwadd.  Cyrhaeddodd y digwyddiad gynulleidfa o 27 gyda 17 o'r rheini'n mynd yn eu blaenau i berfformio eu gwaith ysgrifenedig eu hunain, gan roi sylw i amrywiaeth o genres a phynciau.  Wrth gnoi cil am y digwyddiad, medden nhw:

*"Roedd llawer o bobl nad oedd wedi bod i'n digwyddiad o'r blaen, a'r rheini wedi dod i glywed Gilian"*

Drwy gydol yr un ar ddeg o flynyddoedd, ac er gwaethaf yr argyfwng costau byw presennol, maen nhw wedi glynu wrth y ffi mynediad o £3. Medden nhw:

*"Fydden ni ddim wedi gallu gwneud hyn heb y cymorth ariannol rydyn ni'n ei gael gan y gronfa Ysbrydoli Cymunedau"*

Mae Llenyddiaeth Cymru yn falch o allu cadw digwyddiadau llenyddol lleol yn fyw ac iach, yn ogystal â galluogi cynulleidfaoedd newydd i fwynhau sgyrsiau a sesiynau gydag awduron amlwg Cymru.

## Gweithrediadau

Er mwyn gallu rhoi platfform i lenyddiaeth sy'n berthnasol ac yn hygyrch i gynulleidfa ehangach, bydd staff Llenyddiaeth Cymru yn treulio llawer o amser yn rhannu'u harbenigedd ac yn helpu sefydliadau ac awduron i ddod ynghyd. Yn Chwarter 1, treuliodd staff Llenyddiaeth Cymru 190 o oriau yn rhoi cymorth i'r sector. Treuliwyd 121 o'r oriau hyn yn rhoi gwybodaeth i bobl eraill. Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau mae:

- Helpu ysgolion i ddeall ac i gael gafael ar gymorth ar gyfer digwyddiadau llenyddol drwy rannu gwybodaeth am y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, cronfa ddata Awduron Cymru, a'n beirdd cenedlaethol.
- Rhoi cyngor am ffioedd comisiynu artistiaid llenyddol
- Helpu galwadau/teithiau gan sefydliadau celfyddydol eraill (fel rhaglen Theatr Genedlaethol Cymru yn 2023-24)



Ein Bardd Cenedlaethol, Hanan Issa a Bardd Plant Cymru, Casi Wyn



Cadeirydd Llenyddiaeth Cymru, Cathryn Charnell-White, y Cyfarwyddwr Gweithredol, Claire Furlong ac aelodau eraill o staff yng Ngŵyl y Gelli

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod:** Yr Argyfwng Hinsawdd: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Parhau i ddarparu cynllun **Llên mewn Lle,** gan roi cyfleoedd i feirdd lleol amlwg ddatblygu gwaith yn eu cymunedau lleol, a hwnnw'n rhoi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd drwy lenyddiaeth. | Yn Chwarter 1, cafodd prosiectau Iola Ynyr a Siôn Tomos Owen eu hymestyn tan fis Mawrth 2024, a byddan nhw'n parhau i ddatblygu eu gweithgareddau. Âr ôl dechrau araf, cyflwynodd LUMIN Syllabus ddau weithdy yn Abertawe. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Datblygu a gwerthuso prosiectau grŵp o awduron 1, a recriwtio grŵp o awduron 2, mewn partneriaeth â WWF. | Cafodd adolygiadau o'r cynlluniau peilot 6 mis eu cwblhau gyda Siôn Tomos Owen ac Iola Ynyr. Cafodd amserlen ar gyfer grŵp o awduron 2 ei chreu, a chafodd y staff gyfarfod â Ffiwsar i rannu gwersi i'w dysgu am alwadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd. Fis Mehefin, cafodd WWF ddiweddariad am y cynlluniau cychwynnol ar gyfer grŵp o awduron 2, a chynhaliwyd sgyrsiau hefyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru am y posibilrwydd y gallen nhw fod yn rhan o'r prosiect. | |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau am gynnal gweithgareddau llenyddol cynaliadwy. | Yn mynd rhagddo: Er enghraifft, helpodd y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau Gyngor Sir Ddinbych i drefnu ymweliad gan awdur â llyfrgell Prestatyn, gan helpu i adfywio digwyddiadau lleol ar ôl Covid. Roedd modd i Ganolfan Dylan Thomas ddarparu gweithdai sgwadiau sgwennu ifanc mewn llyfrgelloedd ledled Abertawe, fel rhan o gynllun allgymorth yn rhad ac am ddim. Ac roedd modd i ni gefnogi gŵyl ddrama 4 diwrnod Cwmni Drama, Gŵyl Codi'r Llen, a ddathlai'r dramodydd lleol, W.S. Jones (Wil Sam). Byddai wedi dathlu'i ben-blwydd yn gant yn 2020, a hynny ar garreg ein drws yn Llanystumdwy. Dechreuwyd defnyddio fersiwn symlach o'r ffurflen gais yn Chwarter 1, ac mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ddatblygu canllawiau am gynnal gweithgareddau cynaliadwy. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Iechyd a Llesiant**: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| **Ehangu a datblygu ein partneriaethau** cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | Mae sgyrsiau wedi parhau â phartneriaid yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Chydlynydd y Celfyddydau GIG Caerdydd a'r Fro, Coleg Adfer Caerdydd, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. Mae'r partneriaid hyn yn hollbwysig i'n gweithgarwch ym maes iechyd a llesiant. Er enghraifft, bydd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru yn rhan o banel ein prosiect Sgwennu'n Well. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Darparu'r prosiect peilot, **Sgwennu'n Well,** gan feithrin 6 hwylusydd o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli a'u helpu i ddatblygu eu hymarfer mewn prosiectau partneriaeth Iechyd a Llesiant. | Fis Mai, fe wnaethon ni lansio galwad agored am geisiadau i'r cynllun gan hwyluswyr llenyddol sy'n cael eu tangynrychioli. Cawson ni 50 o geisiadau, a fydd yn cael eu hasesu gan banel cyfweld o arbenigwyr allanol ym maes iechyd, llesiant ac addysg, ynghyd â dau o aelodau staff Llenyddiaeth Cymru. Bydd 6 ymgeisydd wedyn yn cael eu dewis ar gyfer y prosiect a fydd yn dechrau ym mis Medi 2023. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, a recriwtio i'r bedwaredd rownd, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 28 o awduron, gyda phob un yn cynrychioli cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru | Yn mynd rhagddo. Mae 14 o awduron yn cael cymorth dwys ar hyn o bryd drwy'r drydedd rownd. Parhaodd y staff i raglennu gweithgareddau'r flwyddyn, ar ôl ymgynghori â'r awduron. Fis Mehefin, elwodd y mentoriaid o sesiwn gynefino cyn gweithio gyda'r grŵp o awduron. Cynlluniodd tîm Cynrychioli Cymru yr alwad ar gyfer Cynrychioli Cymru 4, ac maen nhw bellach yn adolygu'r dogfennau (fel y cwestiynau cyffredin a'r ffurflen gais) cyn y lansiad. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | Yn mynd rhagddo: Yn Chwarter 1, cynhaliodd Cynrychioli Cymru 2 o sesiynau ar-lein rhad ac am ddim, gan ddenu 81 o gyfranogwyr. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnig o leiaf 8 o sesiynau eraill yn rhad ac am ddim, hyd at fis Mawrth 2024. | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | Gwahoddwyd ail grŵp o awduron Cynrychioli Cymru i Ddiwrnod Diwydiant Awduron Wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, ac mae dosbarth meistr preswyl wedi'i drefnu i ddilyn hynny yn hydref 2023. Mae'r gwaith mentora ôl-ofal ar gyfer grŵp cyntaf o awduron Cynrychioli Cymru wedi'i gwblhau, ac mae adroddiadau adborth wedi dod i law gan fwyafrif yr awduron a'r mentoriaid, sy'n awgrymu bod y bartneriaeth fentora wedi parhau mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol. | |
| Marchnata o leiaf 1 darn o farchnata drwy gyfrwng BSL ar gyfer prosiect cyn diwedd y flwyddyn, ac asesu i ganfod effaith hynny | Yn mynd rhagddo. Mae taflen BSL wedi'i chynllunio ar gyfer galwad mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru yn yr hydref. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru**: Sicrhau ymgysylltiad ehangach, gwell hygyrchedd a rhagor o effaith ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Cwmnïau Cenedlaethol i ddylunio a darparu rhaglen newydd o'r enw **Newid Diwylliant,** a fydd yn cynnwys hyfforddiant ac ymchwil i sicrhau gwell amrywiaeth ymhlith arweinwyr. | Cafodd y rhaglen Newid Diwylliant gyllid ar gyfer 23-25 gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl gwaith manwl i ddatblygu pecyn ymgeisio a phroses recriwtio addas, mae gwaith yn mynd rhagddo i recriwtio Rheolwr Rhaglen a grŵp o Ffrindiau Beirniadol. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Cynnull partneriaid llenyddol, fel Cyngor Llyfrau Cymru a Cyhoeddi Cymru, i ddatblygu cynllun ar gyfer prosiect partneriaeth hirdymor a fydd yn canfod ac yn hyfforddi mwy o awduron Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli gyda'r nod o gyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc | Yn mynd rhagddo – rydyn ni wedi helpu'r Cyngor Llyfrau gyda'u cynllun Cynulleidfaoedd Newydd sy'n pontio'r meysydd datblygu awduron a chyhoeddi.<br>Rydyn ni wedi canfod bod angen cryfhau'r berthynas â chyhoeddwyr unigol, wrth i'r Cyngor Llyfrau gadw mwy o led braich wrth ddatblygu awduron. | |
| Dadansoddi'r canfyddiadau perthnasol o'r Arolwg Rhanddeiliaid, cyflwyno'r canfyddiadau i staff, a chynnal cyfarfod i drafod y camau y mae angen eu cymryd | Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid i staff ym mis Mehefin, a thrafodwyd syniadau wedyn mewn cyfarfod creadigol. Trafodwyd y camau gweithredu mewn cyfarfod effaith, a bydd y gwaith datblygu'n parhau ar ôl llunio'r Adroddiad Blynyddol (22/23). | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Penodi Bardd Plant Cymru newydd a fydd yn ymrwymo o leiaf 25 o ddiwrnodau'r flwyddyn (13 pro rata yn 23/24) i ddarparu gweithgareddau creadigol i blant Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ddechrau mis Mehefin, fe gyhoeddon ni mai Nia Morais fyddai Bardd Plant newydd Cymru. Bydd Nia yn dechrau yn ei swydd newydd fis Medi, ac mae hi wedi'i chontractio i dreulio 25 diwrnod llawn y flwyddyn yn darparu gweithgareddau creadigol i blant yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Sicrhau bod o leiaf 10 o awduron Cymraeg yn cael cyfleoedd datblygu dwys, hirdymor yn 23/24 (e.e. drwy Cynrychioli Cymru neu Sgwennu'n Well) | Bydd 4 o awduron sydd wedi'u dewis i raglen Cynrychioli Cymru 2023/24 yn datblygu gwaith creadigol yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn. Bydd yr awduron eraill yn cael cynnig cyfle i ddatblygu a gwella'u sgiliau Cymraeg ochr yn ochr â'r rhaglen graidd o weithdai a digwyddiadau, a hynny diolch i'n partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a arweiniodd at dreialu cwrs Cymraeg llwyddiannus i grŵp o awduron y llynedd. | |
| Trefnu cwrs dysgu Cymraeg penodol i ddechreuwyr ar gyfer awduron sy'n gweithio'n ddwys gyda ni ar amrywiaeth o brosiectau. | Yn dilyn llwyddiant y cwrs Cymraeg a gynigiwyd y llynedd i grŵp o awduron Cynrychioli Cymru, mae'r sgyrsiau wedi dechrau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i fod yn bartneriaid eto ar gwrs tebyg i awduron sy'n rhan o raglenni Llenyddiaeth Cymru. Mae gwaith mewnol wedi dechrau ar ganfod pa brosiectau a allai elwa o'r cwrs hwn, yn ogystal â grŵp o awduron newydd Cynrychioli Cymru. | |
| Lansio galwad am raglen ddatblygu newydd sbon, Pencerdd, i roi cyfleoedd datblygu dwys i 6 bardd newydd yng nghrefft y gynghanedd, mewn partneriaeth â Barddas. | Bydd prosiect Pencerdd yn cael ei lansio fis Medi, gyda'r cwrs preswyl cyntaf i'w gynnal fis Mawrth 2024. Mae'r gyllideb ar gyfer y prosiect wedi'i sicrhau, ac mae'r sgyrsiau wedi dechrau gyda Barddas, ein partner ar y prosiect. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

## Mesur Gweithrediadol: Tŷ Newydd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cynnal o leiaf 3 encil preswyl yn rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd, neu'n rhithwir o dan faner Tŷ Newydd, i grwpiau o awduron sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnig gweithdai i ddatblygu eu crefft a'u gyrfaoedd. Ymhlith y grwpiau fydd awduron anabl, awduron LHDTC+, awduron Cymraeg, awduron benywaidd o liw, a rhagor. | Nid oes dim o'r rhain wedi'u cynnal eto, ond mae'r canlynol i'w cynnal yn ddiweddarach eleni:<br>**Nodyn ar Natur**, cwrs wythnos o hyd i fenywod o liw (Medi 2023)<br>**Penwythnos Llyfrau Lliwgar**, cwrs penwythnos i awduron LHDTCA+ Cymraeg (Tachwedd 2023)<br>**Cwrs Olwen**, cwrs penwythnos Cymraeg i enillwyr Eisteddfod yr Urdd, gyda llefydd yn cael eu cynnig i awduron sy'n cael eu tangynrychioli (Rhagfyr 2023)<br>**Kathod**, cwrs perfformio barddoniaeth wythnos o hyd yn Gymraeg, yng ngwanwyn 2024 | Cofnodion Tŷ Newydd |
| Cynnig o leiaf 10 ysgoloriaeth i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs, neu i gael encil, yn Nhŷ Newydd/Nant | Hyd yma, mae **6** o ysgoloriaethau wedi'u cynnig i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs, neu i gael encil, yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a'r rheini i'w cynnal yn 2023/24. | |
| Trefnu encil penwythnos LHDTCA+ Cymraeg yn Nhŷ Newydd | Y trefniadau ar y gweill gyda disgwyl cynnal yr encil rhwng 17 ac 19 Tachwedd 2023. | |
| Lansio galwad am gyfranogwyr Cymraeg sy'n arddel rhywedd sydd ar y cyrion i gymryd rhan mewn cwrs yn Nhŷ Newydd i ddatblygu sgiliau perfformio barddoniaeth | Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal cwrs wythnos o hyd yng ngwanwyn 2024 gyda'r gydweithfa, Kathod. Bydd y cyfle ar agor i hyd at chwe chyfranogwr, a bydd yn cael ei arwain gan bedwar artist. Mae disgwyl lansio'r alwad yn hydref 2023. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | I'w drefnu yn Chwarteri 2/3. Darparu sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn Chwarter 1 i staff ac Ymddiriedolwyr, ynghyd â gwneud gwaith i roi trosolwg o faterion llywodraethu i'r Uwch Dîm Arwain ac Ymddiriedolwyr. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Cefnogi o leiaf 2 aelod o staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg (neu sy'n ddysgwyr newydd) ac sydd heb ymweld â'r Eisteddfod o'r blaen i fynychu, drwy eu hebrwng a hwyluso'u hymweliad | Ymwelodd 2 aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg ag Eisteddfod yr Urdd i ddarparu gweithgareddau, gyda chymorth cydweithwyr.<br>Mae ymweliadau â'r Eisteddfod Genedlaethol wedi'u trefnu ar gyfer mis Awst 2023 i'r ddau ddysgwr ar ein tîm o staff, ac mae disgwyl i'n beirdd cenedlaethol fod yn bresennol hefyd. | |
| Darparu hanner diwrnod o hyfforddiant mewnol i staff sy'n rhugl eu Cymraeg i ymarfer a datblygu naws llais Llenyddiaeth Cymru wrth lunio negeseuon cyfathrebu yn Gymraeg. | Wedi'i gynllunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn Chwarteri 3/4. | |

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 1

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cynnig hyfforddiant llesiant i'r holl staff | Cymerodd 10 aelod o staff ran mewn sesiwn Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn Nhŷ Newydd fis Ebrill 2023. Groundwork Gogledd Cymru a gyflwynodd yr hyfforddiant, gan roi trosolwg o wahanol gyflyrau iechyd meddwl a beth all Llenyddiaeth Cymru ei wneud i hybu iechyd meddwl ei staff a phartneriaid. Mae'r adborth gan y staff a gymerodd ran yn y cwrs wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac wedi annog mwy o sgwrsio ymhlith y tîm ynghylch sut i ddatblygu ein cynnig llesiant i staff ac artistiaid. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Sicrhau sylw gan o leiaf 3 phlatfform Haen 1 yn y wasg a'r cyfryngau ac o leiaf 6 yn Haen 2 | Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi cael sylw o dan Haen 1 ddwywaith, a sylw o dan Haen 2 ugain o weithiau. Roedd hyn yn cynnwys sylw cadarnhaol i'r cyhoeddiad ynghylch pwy fyddai'r nesaf i gamu i swyddi Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales. Cafwyd cyfweliad ar raglen Heno ar S4C, sylw dros ddwy dudalen yn y Western Mail, a sawl erthygl ar-lein gan gynnwys rhai gan The Bookseller, Golwg 360, a BBC Cymru Fyw. Cafodd Alex Wharton, y Children's Laureate Wales, hefyd sylw ar BBC One Wales yn gynharach yn y flwyddyn wrth siarad am ein prosiect Ymatebion Creadigol mewn partneriaeth â Cadw. | Monitro'r Cyfryngau |
| Codi £207,000 o Incwm Masnachol (cyrsiau ac encilion yn Nhŷ Newydd) | Ar ôl cyhoeddi Rhaglen Gyrsiau Tŷ Newydd 2023, mae £162,077.10 wedi'i godi mewn Incwm Masnachol hyd yma eleni. Mae hyn hefyd yn cynnwys incwm sydd wedi'i godi o encilion preifat yn Nhŷ Newydd, sy'n parhau'n ffynhonnell incwm gryf pan na fydd cyrsiau'n cael eu cynnal yn Nhŷ Newydd. Er enghraifft, yn ystod Chwarter 1, llenwyd Bwthyn Encil Awduron Nant i 95% o'i gapasiti (gan ragori ar ein targed o 75%). | Cofnodion banc |
| Sefydlu pwyllgor llywio o awduron sy'n cael eu tangynrychioli yn y sector cyhoeddi yng Nghymru i ddeall yn well pa ymyriadau y mae angen eu cyflwyno. | Cynhaliwyd Bord Gron Cymru Ni fis Mawrth 2023, lle bu awduron o liw sy'n rhan o raglen Cymru Ni yn rhannu'u profiadau a'u syniadau ynghylch sut gall Llenyddiaeth Cymru ymwneud â'r sector addysg. Bydd y sgyrsiau hyn yn helpu i lywio strategaeth a gwaith rhaglennu Llenyddiaeth Cymru, gan arwain at ragor o drafodaethau ynghylch sut i ymwneud ag awduron sy'n cael eu tangynrychioli yn y byd cyhoeddi i blant yng Nghymru. | Amserlen a chofnodion y pwyllgor llywio |

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cyhoeddi canlyniadau arolwg rhanddeiliaid 2023 | Mae canlyniadau'r Arolwg Rhanddeiliad wedi'u dadansoddi a'u cyflwyno i staff mewn Cyfarfod Staff. Fodd bynnag, ar ôl trafodaethau, rydyn ni wedi penderfynu bod diffyg negeseuon amlwg neu ganfyddiadau perthnasol y gellid eu rhannu â'r cyhoedd. Serch hynny, bydd ystadegau unigol yn dal i gael eu defnyddio'n fewnol a'u cyhoeddi'n allanol pan fyddan nhw'n berthnasol i roi sail i weithgarwch a chyfeiriad strategol Llenyddiaeth Cymru. Mae'r data sydd wedi'u casglu yn feincnod gwych ar gyfer ein gweithgareddau, a bydd hi'n haws cyfathrebu am ein data'n gyhoeddus dros gyfnod o amser pan fydd gennyn ni sawl blwyddyn o ddata i ddangos tueddiadau. | Cynnyrch gwaith cyfathrebu |
| Datblygu partneriaethau hirdymor gyda 3 o gyrff cenedlaethol | Dydyn ni ddim wedi llofnodi unrhyw gytundebau partneriaeth yn ystod Chwarter 1 eleni. Serch hynny, mae trafodaethau wedi'u cynnal â chyrff cenedlaethol, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, Cyfnewidfa Lên Cymru, a'r National Theatre. Mae'r trafodaethau strategol hyn wedi helpu i ddatblygu ein partneriaethau hirdymor â'r sefydliadau hyn, a gallen nhw arwain at drefniadau partneriaeth mwy ffurfiol yn y dyfodol. | Cytundebau Partneriaeth |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi

## Cynnydd chwarter 1

Rydyn ni wedi parhau i wneud cynnydd da wrth leihau effaith amgylcheddol yr holl gyflenwadau swyddfa y byddwn ni'n eu prynu. Yn Nhŷ Newydd, dim ond papur tŷ bach bambŵ neu bapur wedi'i ailgylchu 100% y byddwn ni bellach yn ei ddefnyddio, ac rydyn ni'n stocio cynhyrchion cegin sy'n llesol i'r amgylchedd yn Nant (oherwydd safonau iechyd yr amgylchedd, nid yw hyn yn bosibl yn Nhŷ Newydd i gyd ar hyn o bryd). Yng Nghanolfan Glyn Jones, rydyn ni wedi parhau i flaenoriaethu deunydd a chyflenwadau swyddfa sy'n llesol i'r amgylchedd – gan fynd ati'n ddiweddar i brynu llyfrau nodiadau o bapur wedi'i ailgylchu a phinnau ysgrifennu sy'n llesol i'r amgylchedd. Ar ôl methu targedau argraffu y llynedd, mae Tŷ Newydd yn gweithio tuag at leihau faint mae'n ei argraffu drwy greu detholiadau digidol o waith cyrsiau, heb i ddim detholiadau papur gael eu hargraffu yn ystod y chwarter hwn.

Fe wnaethon ni rannu cyfle gwirfoddoli newydd gyda'r staff sy'n galluogi'r holl staff i gymryd hyd at 4 diwrnod / 30 awr (neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny yn achos staff rhan amser) i wirfoddoli yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae gan y staff rwydd hynt i awgrymu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n gweddu orau iddyn nhw neu i'w cymunedau lleol. Rydyn ni'n annog gwirfoddoli sy'n ymwneud â byd natur a'r amgylchedd, gyda rhestr o'r cyfleoedd gwirfoddoli posibl yn cynnwys Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Coed Cadw, a phrosiect y Green Squirrel's Railway Gardens yng Nghaerdydd.

## Chwarter 1 Targedau a fethwyd

Mae dechrau'r flwyddyn ariannol newydd wedi ein galluogi i fonitro treuliau yn 2022-23 a'u cymharu â'n targedau cynaliadwyedd. Teithiodd y staff fwy o lawer yn 2022-23, gyda £3,755.48 yn cael ei wario ar filltiroedd y staff. Mae hyn yn uwch o lawer na'r £952 a wariwyd yn 2021-22, a hynny'n debygol o fod yn sgil ailddechrau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

A ninnau'n talu 45c y filltir, rydyn ni'n gallu amcangyfrif fod y staff wedi teithio 8,346 o filltiroedd at ddibenion gwaith. Fel amcangyfrif hynod o fras, heb ystyried ffactorau fel y model penodol neu injan y car, byddai hyn yn cyfrannu at 2290kg o allyriadau $CO_2$. Er bod hyn 39% yn is na'r lefelau cyn y pandemig, pan amcangyfrif fod o 13,578 o filltiroedd wedi'u teithio o'r £5,076.83 a wariwyd ar filltiroedd yn 2019-20, ein nod fydd osgoi rhagor o gynnydd mewn teithio at ddibenion gwaith.

Er ein bod bron â chyrraedd ein targed i sicrhau bod 50% o gyfranogwyr a thiwtoriaid Tŷ Newydd yn cyrraedd drwy drafnidiaeth gyhoeddus/teithio llesol neu'n ymuno ar-lein (hyd yma, 47% yw'r ffigur), nid oes cynnydd wedi'i wneud i osod Man Gwefru Cerbydau Trydan yn Nhŷ Newydd. Oherwydd fod cryn lafur ynghlwm wrth fwydo cebl o brif gyflenwad Tŷ Newydd i'r man gwefru, mae angen cyllideb sylweddol sy'n uwch na'r daleb a gafwyd gan y Llywodraeth i gwblhau'r gwaith. Yn ystod y chwarter hwn, mae costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r Tŷ Haul wedi effeithio ar gyllideb Gwaith Tŷ Newydd. Yn y cyfamser, gall gwesteion barhau i ddod â cherbydau trydan a defnyddio un o socedi'r prif gyflenwad i'w gwefru.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Ebrill – 31 Mehefin 2023 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| **Gwaith i adnewyddu'r Tŷ Haul** | Yn ystod y chwarter, daeth anawsterau i'r amlwg yn gysylltiedig â gweithio gyda phensaer sy'n arbenigo mewn cadwraeth a chydag adeiladwr ar y safle. Mae'r gwaith ar y Tŷ Haul bron â dod i ben erbyn hyn, ond mae oedi yn y broses gyfathrebu rhwng y contractwyr wedi golygu bod yr amserlen wedi llithro'n sylweddol, heb i'n tîm allu cynllunio'n effeithiol. | Gan fod angen gweithio gyda phensaer sy'n arbenigo mewn cadwraeth, rydyn ni bellach wedi comisiynu cynllun cadwraeth llawn gan y cwmni, a fydd yn ein galluogi i gynllunio ymlaen at y ddeng mlynedd nesaf. Gyda chynllun ar y lefel hon, rydyn ni'n gobeithio y bydd yn golygu y gallwn ni drafod yn uniongyrchol â chontractwyr adeiladu yn achos y rhan fwyaf o'r gwaith y bydd angen ei wneud, a hynny'n gyflymach ac yn haws gan y byddan nhw'n bresennol ar y safle. |
| **Children's Laureate/Bardd Plant Cymru** | Wrth lansio'r ddau fardd plant, fe wnaethon ni fuddsoddi mwy o amser nag erioed yn eu cefnogi. Fe wnaethon ni greu pecynnau cynefino i gyd-fynd â'n cyfarfodydd briffio, a oedd yn rhoi sylw i bynciau a amrywiai o ddiogelu a'r cyfryngau cymdeithasol i gynllunio effaith. Mae'r rhain wedi bod yn help garw yn barod wrth ddechrau'r berthynas â'r beirdd plant ar nodyn cadarnhaol, ac maen nhw wedi helpu i ddygymod yn well â'r mymryn o gyhoeddusrwydd negyddol a gafwyd. | Roedd y pecyn hwn yn datblygu'r un a gafodd ei greu wrth lansio'r Bardd Cenedlaethol y llynedd, ac maen nhw'n sicr wedi bod yn ddefnyddiol. Bydd y tîm a wnaeth ei greu bellach yn ei rannu â'r tîm llawn yn un o gyfarfodydd y staff, er mwyn i bobl eraill allu ei ddefnyddio ar eu prosiectau mwy o faint. |
| **Hyfforddiant Llywodraethu** | Elwodd yr Uwch Dîm Arwain a'r Bwrdd i gyd o'r hyfforddiant am lywodraethu a roddwyd yng nghyfarfod y bwrdd ym mis Mai. Er bod llawer o'r cynnwys yn ein hatgoffa o bethau roedden ni'n eu gwybod yn barod, roedd hynny'n ddefnyddiol o hyd, ac fe wnaethon ni ddysgu am bwysigrwydd gosod cylchoedd gorchwyl ar gyfer gweithio gyda grwpiau dirprwyedig ar brosiectau penodol, yn hytrach na chynnwys yr holl fwrdd. | Mae'n debygol y bydd defnyddio grwpiau dirprwyedig yn ddefnyddiol pan fydd y bwrdd yn ymwneud â phrosiectau penodol, fel ceisiadau i Gyngor Celfyddydau Cymru neu brosesau recriwtio. Bydd hyn yn osgoi oedi wrth aros i'r holl ymddiriedolwyr ymateb/gymeradwyo camau gweithredu, cyn belled â'u bod yn barod i roi'r cyfrifoldeb i grŵp llai o faint. |
| **Sgwennu'n Well/Writing Well** | Drwy gydol y broses o recriwtio i'r prosiect hwn, rydyn ni wedi'i chael hi'n anodd denu niferoedd da o ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn debyg i brofiadau rydyn ni wedi'u cael gyda galwadau eraill fel Cynrychioli Cymru. Yn ystod y broses recriwtio, fe wnaeth y rheolwr prosiect waith trylwyr yn ceisio cyrraedd ymgeiswyr posibl yn bersonol, a rhoddwyd mwy o ymdrech i farchnata yn Gymraeg nag yn Saesneg. Serch hynny, nid yw hyn wedi arwain at ganlyniadau. Mae gennyn ni ddigon i sicrhau bod gan y prosiect 50% o gyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg, ond rydyn ni'n gwybod bod modd gwneud mwy. | Dros yr haf, oherwydd natur bersonol ein dulliau gweithio, byddwn ni'n gwneud ymdrech i gysylltu eto â'r unigolion hyn i geisio deall yn well pam nad oedden nhw'n teimlo bod y cyfle'n addas iddyn nhw. Byddwn ni wedyn yn dod ynghyd eto i rannu'r gwersi a ddysgwyd gyda'r tîm ehangach cyn yr alwad fawr nesaf yn yr hydref. |